HAZRED - Ffeithlen y Project

HAZRED – Arddangos Dull Ewropeaidd o Reoli Gwastraff Peryglus Gan Gynnwys Targedau ar gyfer Atal a Lleihau Gwastraff.

Beth yw HAZRED?

Project Ewropeaidd tair-blynedd yw HAZRED a gydariennir gan Raglen Amgylcheddol LIFE yr UE, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd Iwerddon, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Envirowise, y Groundwork Foundation, Safety-Kleen a'r Grŵp Ailgylchu Gwastraff. Nod y project, a leolir yn y DG dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd, yw cynorthwyo i atal a lleihau'r gwastraff peryglus a gynhyrchir gan fentrau bach a chanolig (SMEs), a'u helpu i leihau costau ar yr un pryd. Gwerth cyfan y project yw € 1,496,282.

Er gwaethaf cyfarwyddiadau'r Gymuned yn ymwneud â llifau gwastraff penodol a gweithredu Cyfarwyddyd Fframwaith Gwastraff a chyfarwyddiadau dilynol, mae cyfanswm y gwastraff peryglus ar gynnydd. Oni weithredir ar fyrder, mae'n bosibl y methir cyrraedd targedau'r polisi gwastraff Ewropeaidd. Mae problem gwastraff peryglus yn arbennig o ddifrifol mewn cymunedau sydd yn bell oddi wrth isadeiledd gwastraff; gall hyn arwain at bentyrru a symud gwastraff dros bellter mawr, sydd yn gostus.

Nod project HAZRED yw dangos manteision gosod targedau lleihau gwastraff a datblygu cynlluniau lleihau gwastraff mewn partneriaeth â sectorau diwydiant allweddol, yn enwedig y rhai hynny sydd â chyfran uchel o fusnesau bach. Targedir SMEs gan eu bod yn tueddu i fod â'r mynediad isaf i arweiniad amgylcheddol a diffyg ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Sut fydd y project yn gweithio?

I ddangos effeithlonrwydd dull o leihau gwastraff peryglus a arweinir gan y sector, bydd HAZRED yn gweithio gyda 120 SME ar draws chwe sector blaenoriaeth yn y DG ac Iwerddon. Dyma'r sectorau blaenoriaeth a ddewisiwyd gan ddefnyddio methodoleg a ddatblygwyd gan y project mewn ymgynghoriad ag ystod o arbenigwyr amgylcheddol a diwydiannol:

- Adeiladu cyffredinol
- Trin a/neu gaenu metelau
- Cynnal ac atgyweirio cerbydau modur
- Prosesu ffotograffig
- Cynhyrchu cemegolion organig arbenigol
- Cynhyrchu peiriannau ac offer

Bydd HAZRED yn ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol ar draws y chwe sector:

- Gweithio gyda rheoleiddwyr, diwydiant, lluniwyr polisi a chymdeithasau masnachu i ddatblygu cynllun lleihau gwastraff peryglus (cynllun HAZRED), gan gynnwys targedau lleihau
- Penodi arbenigydd sector i gynorthwyo i ddatblygu'r cynllun HAZRED
- Datblygu pecyn hyfforddi a hyfforddi a chymhwyso ymgynghorwyr i weithio gyda'r SMEs cyfrannol i weithredu cynlluniau lleihau gwastraff peryglus
- Gweithio gyda chyfranogion allweddol i recriwtio 120 SME ar draws chwe sector y project
- Monitro a gwerthuso'r lleihad mewn gwastraff peryglus, arbed costau ar arfer orau ar draws y 120 SME
- Canfod y rhwystrau i weithredu cynlluniau HAZRED o fewn sectorau

Trosglwyddo'r canlyniadau

Un o gydrannau allweddol project HAZRED yw trosglwyddo canlyniadau, methodoleg a deunyddiau'r project ledled yr UE fel sail ar gyfer strategaethau lleihau gwastraff peryglus effeithlon o fewn sectorau mewn gwledydd eraill sydd yn aelodau o'r Undeb. Cynhyrchir cynllun lledaenu ac fe'i diweddarir bob blwyddyn.

Mae HAZRED yn ymroddedig i'r gweithgareddau lledaenu canlynol:

- Gwefan benodol a ddiweddarir yn rheolaidd gyda newyddion am y project a darganfyddiadau
- Newyddlen chwarterol gyda'r newyddion diweddaraf am y project
- Targedu cyfryngau Ewropeaidd allweddol gyda gwybodaeth am y project
- Catalog arfer orau (ar-lein)
- Ffeithlenni amlieithog
- Cynhyrchu crynodeb hawdd-i'w-ddarllen o ganlyniadau'r project

Amserlen y Project

Mawrth 2005 *– Gweithdy blaenoriaethu sectorau*
Bydd cynrychiolwyr allweddol o ddiwydiant, cymdeithasau masnachu a sefydliadau amgylcheddol yn dod i weithdy gyda phartneriaid y project yn Llundain i helpu i ddewis chwe sector diwydiant blaenoriaethol i gyfrannu i broject HAZRED.

Ebrill 2005 *– Cyhoeddi'r sectorau blaenoriaethol*
Cyhoeddir y chwe sector blaenoriaeth ac mae'r gwaith yn dechrau ar ddatblygu cynlluniau lleihau i bob sector.

Mai 2005 – *Dechrau trosglwyddo gwybodaeth am y project*
Dechrau gwella ymwybyddiaeth yn ET (Environment Technology) 2005 yn yr NEC yn Birmingham

Mehefin 2005 – *Recriwtio arbenigwyr sector*
Recriwtio arbenigwyr sector i gynorthwyo gyda datblygu cynlluniau lleihau i bob sector

Mehefin/Gorffennaf 2005 *– Lansiad swyddogol y project*
Cynnal digwyddiad lansio yn Llundain. Gwefan HAZRED yn fyw a dosbarthu rhifyn cyntaf newyddlen HAZRED.

Hydref 2005 – Mawrth 2006 *– Gweithio gyda'r sectorau blaenoriaeth*
Gweithio gyda'r sectorau blaenoriaeth drwy'r cymdeithasau masnachu, y cyfryngau a gweithdai i egluro HAZRED ac i recriwtio SMEs i gyfrannu i'r project.

Gwanwyn 2006 *– Ymweliadau cychwynnol â safleoedd*
Ymgynghorwyr i fynd ar ymweliadau cychwynnol â safleoedd gyda SMEs cyfrannol.

Gorffennaf 2007 *– Gwerthuso'r canlyniadau*
Ymweliadau dilynol i fusnesau cyfrannol a chrynhoi'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd yn achos pob sector.

Hydref 2007 *– Tosglwyddo'r canlyniadau*
Cyhoeddi'r pethau cyflawnadwy a'u lledaenu ledled yr UE.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am HAZRED neu i fynegi diddordeb mewn cyfrannu i'r project ewch i www.hazred.org.uk neu ebostiwch gill.ross-jones@environment-agency.gov.uk

I gael mwy o wybodaeth am wastraff peryglus, ewch i www.hazardouswaste.org.uk